**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-950
Ein cyf/Our ref: KW/00467/20
Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

18 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

**Deiseb P-05-950 – Addysg Amaethyddol a Chefn Gwlad ar gyfer plant 4 i 16 yn ein hysgolion**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth ynghylch deiseb a ddaeth gerbron eich Pwyllgor, yn cefnogi'r ddarpariaeth i addysgu am amaethyddiaeth a materion yn ymwneud â chefn gwlad o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Rwy'n sylwi, o'r wybodaeth ychwanegol, fod pwyslais cryf yma ar godi ymwybyddiaeth o'r dulliau o gynhyrchu bwyd.

Mae cwricwlwm cenedlaethol presennol yng Nghymru yn darparu'r hyblygrwydd ar gyfer addysgu a dysgu am bynciau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, yr amgylchedd a bwyd o fewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, darpariaeth i alluogi dysgwyr i archwilio ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd cynhyrchu bwyd, yn ogystal â'u cynorthwyo i ddatblygu sgiliau coginio ymarferol. Yn ogystal, drwy Ddylunio a Thechnoleg, mae dysgwyr yn gallu defnyddio ystod eang o sgiliau a thechnegau i gyflawni tasgau coginio ymarferol ac i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr â diet iachus a chytbwys.

Caiff y cyfleoedd hyn eu hehangu yn ein cwricwlwm newydd i Gymru, y cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar ei gyfer ym mis Ionawr yn barod ar gyfer ei addysgu am y tro cyntaf o dan y fframwaith newydd hwn o fis Medi 2022.

Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw bod dysgwyr yn symud ymlaen fel unigolion iach a hyderus. Un o nodweddion y diben hwnnw yw dysgwyr sy'n gallu defnyddio gwybodaeth am effaith bwyd a diet ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau bob dydd.

Bydd galluogi dysgwyr i ymgorffori'r pedwar diben yn hollol ganolog i gwricwlwm pob ysgol. Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad ac mae'r rhai sy'n ymwneud ag Iechyd a Lles, y Dyniaethau a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynnwys dysgu ac arweiniad sy'n cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o fwyd a'r broses o'i gynhyrchu. Mae'r cwricwlwm newydd yn caniatáu i ymarferwyr ddatblygu dull mwy integredig, gan ddod â gwahanol ddisgyblaethau a meysydd ynghyd i ystyried materion fel cynhyrchu bwyd, yn fwy holistaidd.

Mae hefyd yn bwysig ychwanegu y bydd gan ysgolion yr hyblygrwydd i benderfynu sut y gall eu cwricwlwm adlewyrchu eu cymdogaeth, eu cymuned a'r materion sy'n berthnasol i'w dysgwyr. Mae hyn yn debygol o arwain at fwy o ffocws ar amaethyddiaeth ac astudiaethau cefn gwlad, mewn rhai achosion. Mae canllawiau'r cwricwlwm newydd yn rhoi cymorth i ysgolion i dynnu ar ystod o ffactorau a chyd-destunau lleol wrth ddatblygu eu cwricwlwm, gan eu cefnogi i ddatblygu dysgu sy'n fwyaf perthnasol i'w dysgwyr.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg